



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Llwybr at Waith

Cymorth cyflogaeth i  
Ymadawyr Gwasanaeth  
a Chyn-filwyr



# Rhagair

Mae gan Gymru hanes balch o draddodiad milwrol ac mae'n cydnabod gwerth cyfraniad ein Lluoedd Arfog at y cymunedau lle maen nhw'n byw. Rydym yn croesawu eu cyfraniad at ein ffordd o fyw ni yng Nghymru.

Rydym ni fel cenedl yn ddyledus iawn i'n Lluoedd Arfog a'u teuluoedd am yr aberthau maen nhw wedi'u gwneud i sicrhau ein bod ni'n parhau i fwynhau'r cymunedau cyfiawn a diogel sydd gennym heddiw.

Mae'r newid i fywyd sifil yn gallu bod yn brofiad pryderus. Er hynny, mae mwyafrif y rhai sy'n gadael y Lluoedd yn ymaddasu'n effeithiol unwaith eto i gymdeithas, gan ddefnyddio sgiliau a ddatblygwyd yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog i gael swyddi da a chyfrannu at eu cymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog i sicrhau nad yw aelodau'r Lluoedd Arfog o dan anfantais yn sgil eu gwasanaeth, a rhoddir ystyriaeth arbennig i'r rheini sydd wedi rhoi'r mwyaf.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru ynghyd â'n partneriaid allweddol wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod aelodau'r gymuned Lluoedd Arfog yn cael y cymorth a'r gwasanaethau maen nhw'n eu haeddu.

Rydym wedi gwneud cynnydd enfawr ond mae mwy y gallwn ni ei wneud.

Mae dod o hyd i swyddi da sy'n cydnabod y sgiliau y mae personél y Lluoedd wedi'u meithrin yn ystod eu cyfnod yn gwasanaethu wedi'i nodi fel ffactor allweddol sy'n helpu'r rhai sy'n gadael y Lluoedd, cyn-filwyr a'u teuluoedd i integreiddio'n ôl i fywyd sifil a chyfrannu at y cymunedau lle maen nhw'n ymgartrefu.

Mae rhai, am amryw o resymau, yn cael y newid yn anodd ac mae methu â chael gwaith yn ffactor allweddol yn hyn o beth.

Nod y llwybr hwn yw cyfeirio'r rhai sy'n gadael y Gwasanaeth a chyn-filwyr a rhoi gwybod iddynt beth yw eu hopsiynau o ran dod o hyd i waith sy'n cydnabod eu sgiliau, er mwyn rhoi sicrwydd ariannol iddynt.

**Mae datblygu'r Llwybr hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth ac rwy'n edrych ymlaen at weld y manteision a ddaw yn ei sgil. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Llwybr.**



Alun Davies AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus

# Cynnwys

---

- 03 } Rhagair
- 05 } Cyflwyniad
- 06 } Cyfamod y Lluoedd Arfog
- 07 } Ymchwil
- 09 } Beth yw'ch llwybr chi?
- 09 } Wyddoch Chi?
- 10 } Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP)
- 11 } Future Horizons
- 11 } Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- 12 } Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr
- 12 } Y Porth i Gyn-filwyr
- 13 } Llywodraeth Cymru
- 16 } Gwasanaeth Dechrau Busnes
- 18 } Gyrfa Cymru
- 19 } RFEA – Elusen Cyflogaeth y Lluoedd
- 19 } Gwasanaethau Cyflogaeth gan Gymdeithas y Swyddogion (OA)
- 20 } Elusennau Milwrol
- 21 } Cymorth i ddatblygu'ch sgiliau a chael mynediad at Addysg Bellach ac Uwch

# Cyflwyniad

I gydnabod eu gwasanaeth dros eu gwlad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pob cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog gael cymorth, os oes ei angen, i ddod o hyd i waith addas, boed yn union ar ôl gadael y Lluoedd neu nes ymlaen yn eu bywydau.

Mae amcangyfrifon o nifer yr aelodau o'r Gymuned Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru yn amrywio a gallai fod cymaint â 385,000<sup>1</sup>. [www.gov.uk/government/publications/the-nations-commitment-cross-government-support-for-our-armed-forces-their-families-and-veterans](http://www.gov.uk/government/publications/the-nations-commitment-cross-government-support-for-our-armed-forces-their-families-and-veterans)

Mae'r Llwybr at Waith hwn ynghyd â Phecyn Cymorth Llywodraeth Cymru, yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru i sicrhau bod pawb sydd angen swydd dda yn cael cymorth ac yn cael gwybodaeth addas i'w anghenion.

[www.gov.uk/government/publications/the-nations-commitment-cross-government-support-for-our-armed-forces-their-families-and-veterans](http://www.gov.uk/government/publications/the-nations-commitment-cross-government-support-for-our-armed-forces-their-families-and-veterans)

Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyn ei ddatgan yn "The Nation's Commitment: Cross-Government Support to our Armed Forces, their Families and Veterans" a gafodd ei ddiweddarau gan Gyfamod y Lluoedd Arfog. [www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/238719/7424.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/238719/7424.pdf)

I gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael y gwasanaeth, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer pobl mewn meysydd fel gofal iechyd, addysg a thai.

[www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/160915-giving-and-receiving-armed-forces-cy.pdf](http://www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/160915-giving-and-receiving-armed-forces-cy.pdf)

<sup>1</sup> Arolwg Aelwydydd Y Llog Brydeinig Frenhinol



# Cyfamod y Lluoedd Arfog

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas.

Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran y Llywodraeth, gan aberthu rhywfaint o'r rhyddid sydd gan unigolion sy'n byw fel sifiliaid, wynebu perygl ac, mewn rhai achosion, gan ddioddef anafiadau difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd.

Mae teuluoedd hefyd yn chwarae rôl hanfodol i gefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog.

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl y dylai'r rheini sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu a'u teuluoedd gael eu trin yn deg. Cafodd y Cyfamod ei gorffori yn y gyfraith yn Neddf Lluoedd Arfog 2011 ac mae'n sicrhau nad oes yr un aelod o'r gymuned Lluoedd Arfog o dan anfantais o safbwynt medru cael gafael ar a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu fasnachol o ganlyniad i'w wasanaeth.

Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rheini sydd wedi rhoi'r mwyaf, fel y rhai sydd wedi eu hanafu neu wedi cael profedigaeith.

Mae gan y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, elusennau'r trydydd sector ac elusennau'r gwasanaeth, sefydliadau masnachol a chymdeithas sifil oll gyfraniad i'w wneud at gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda chyflogaeth, gofal iechyd, tai, addysg a chyingor ariannol.  
[www.armedforcescovenant.gov.uk](http://www.armedforcescovenant.gov.uk)

# Ymchwil

Mae gwaith ymchwil eang wedi'i gynnal dros y blynyddoedd diwethaf i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth a chyn-filwyr i ddod o hyd i swydd dda ar ôl gadael y Lluoedd, yn cynnwys:


- » Barn cyflogwyr ar gyn-bersonél y Lluoedd.
- » Hyfforddiant, sgiliau a chyflogaeth.
- » Gweld potensial cyn bersonél y Lluoedd<sup>1</sup>.
- » Edrych ar y bwch cyflogaeth ar gyfer cyn-filwyr<sup>2</sup>.
- » Manteisio ar Ddoniau Milwrol<sup>3</sup>.

Dyma rai enghreifftiau o waith ymchwil sydd wedi'i wneud i ganfod y rhwystrau a'r cyfleoedd pan fydd y rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chyn-filwyr yn ceisio dod o hyd i waith.

Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau'n dweud bod dod o hyd i swydd dda yn ffactor allweddol i bontio llwyddiannus.

Bydd y rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chyn-filwyr yn camu i farchnad swyddi gystadleuol iawn. Gyda hyn mewn golwg, ynghyd â chanfyddiadau gwaith ymchwil, mae'r llwybr hwn wedi'i ddatblygu.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chyn-filwyr a'u cyfeirio at y cymorth sydd ar gael iddynt ddod o hyd i waith a rhoi cyfleoedd iddynt fanteisio ar y sgiliau iddyn nhw eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd.



Mae 78% o gyn-filwyr sy'n gweithio yn gyflogedig – ac yr un mor debygol o fod yn gyflogedig â'r rhai nad ydynt yn gyn-filwyr

<sup>1</sup> Deloitte, FiMT & The Officers Association

<sup>2</sup> Deployment to Employment – Royal British Legion 2016

<sup>3</sup> Business in the Community Toolkit






# Beth yw'ch llwybr chi?

Ydych chi'n gwybod am y cymorth sydd ar gael i chi ar hyn o bryd?

## Posibiliadau Gyrfa




## Dyma fwy o wybodaeth am yr opsiynau a ddangosir

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) a'r Lluoedd Arfog yn cydnabod bod pontio llwyddiannus o'r Lluoedd Arfog i fywyd sifil yn hollbwysig er mwyn i chi fedru ymaddasu i fywyd sifil.

Mae paratoi at gael swydd yn y dyfodol yn un o gonglfeini'r broses bontio ac mae'r MoD yn rhoi cymorth i chi drwy'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa (CTP).

Mae cymorth y Bartneriaeth yn eich cynorthwyo chi wrth i chi adael y Lluoedd Arfog i bontio'n llwyddiannus i fywyd sifil a chyflawni'r canlyniadau galwedigaethol ehangach sy'n mynd â'ch bryd.

## WYDDOCH CHI?



## WYDDOCH CHI?

Amcangyfrifir bod yr 82% o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd a ddefnyddiodd y CTP yn 2016/17 wedi cael gwaith o fewn chwe mis o adael y Lluoedd Arfog, gyda 10% arall nail ai mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn neu ddim yn chwilio am waith.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth o fwllch gwaith ymhlith cyn-filwyr, gyda nifer sylweddol o gyn-filwyr heb waith amser llawn neu ran-amser neu ddim yn gallu defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt yn eu rolau<sup>1</sup>.

## Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP)

---

Mae'r CTP (Career Transition Partnership/Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd) yn gytundeb partneriaeth rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Right Management Ltd, sef arbenigwyr byd-eang ar ddatblygu gyrfa ac all-leoli.

Mae'n cynnig gwasanaethau ailgartrefu, cyngor ar newid gyrfaoedd a chymorth gyda chyflogaeth, yn ogystal â rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol, am ddim i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd.

Bydd yn eich helpu i farchnata'ch hun yn hyderus i gyflogwyr a llwyddo yn y farchnad swyddi sifil.

Fel rheol, mae'ch proses ailsefydlu yn dechrau dwy flynedd cyn i chi adael y Lluoedd ac yn para am ddwy flynedd wedyn. Mae'r cymorth yn cwmpasu'r tri gwasanaeth ac yn cynnwys cymorth i nodi sgiliau trosglwyddadwy, chwilio am swydd, cyflogaeth, tai a chyllid. Mae'r Rhaglen Ailsefydlu Graidd ar gael i bersonél sydd wedi gwasanaethu am chwe blynedd neu fwy.

Mae'n darparu cefnogaeth un-i-un gan ymgynghorydd gyrfa personol, ac mae'n eich helpu i baratoi CVs a thechnegau cyfweld. Bydd hefyd yn eich cefnogi gydag atodiadau gwaith sifil a hyfforddiant galwedigaethol i ennill cymwysterau cydnabyddedig sifil.

Cyn gadael y Lluoedd byddai'n fuddiol i chi weithio gyda'r CTP i weld pa sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen arnoch i lenwi swyddi gwag penodol yn y rhanbarth rydych chi am ymgartrefu ynddo.

Bydd hyn yn sicrhau bod gennych chi'r sgiliau perthnasol i lenwi bylchau cyflogaeth hysbys a'r offer a'r adnoddau i'ch helpu i ddod o hyd i'r ail yrfa foddhaol rydych chi'n chwilio amdani.

## Future Horizons



Os ydych chi'n gadael y Lluoedd yn gynnar (yn Early Service Leaver (ESL) – ac wedi gwasanaethu am lai na phedair blynedd neu os ydych chi wedi gorfod gadael, gallwch gael cymorth drwy'r cynllun Future Horizons.

Mae'r cynllun yn eich cysylltu â rhwydwaith o bartneriaid i roi'r cymorth a'r cyngor mwyaf priodol i chi wrth adael y Lluoedd ac ymaddasu i fywyd sifil.

Am ragor o wybodaeth am y CTP a'u gwasanaethau ewch i: [www.ctp.org.uk](http://www.ctp.org.uk)

## Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Os nad ydych chi wedi llwyddo i ddod o hyd i waith cyn gadael y Lluoedd, bydd angen i chi gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn eich Canolfan Byd Gwaith leol a chael eu help i gael budd-daliadau ariannol, fel y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Credyd Cynhwysol.

Bydd angen i chi ddweud wrth eich Hyfforddwr yn y Ganolfan Byd Gwaith eich bod wedi gadael y Lluoedd neu'ch bod yn Gyn-filwr fel y gallwch chi drafod eich sgiliau trosglwyddadwy, eich cymwysterau ac unrhyw rwystrau i'r byd gwaith. [www.gov.uk/browse/benefits](http://www.gov.uk/browse/benefits)

### WYDDOCH CHI?

Fel rhywun sydd wedi gadael y Lluoedd neu fel Cyn-filwr, gallech chi (a'ch priod/partner) fod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol; mae gan bob Canolfan Gwaith yng Nghymru Hyrwyddwr Lluoedd Arfog sydd â gwybodaeth helaeth am y cymorth sydd ar gael a'r cyflogwyr yn eich ardal sy'n croesawu cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog.

Gallwch gael cymorth hefyd gan y Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd a thrafod y ffordd orau o ddefnyddio'ch credydau Gwasanaeth Gweinyddu Credydau Dysgu Estynedig (ELCAS – Enhanced Learning Credits Administration Service). Byddwch chi'n gallu dilyn cyrsiau perthnasol i'ch helpu i gael gwaith hefyd. Hwyrach y gallech ystyried gwaith gwirfoddol neu ran-amser i ddechrau, i baratoi eich hun ar gyfer gwaith llawn amser.

## Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr

Mae'r Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr yn rhan o Veterans UK MoD, ac mae'n rhoi cymorth i chi fel aelodau'r Lluoedd Arfog wrth bontio i fywyd sifil.

Gellir rhoi cymorth ynghylch amrywiaeth o faterion yn cynnwys Cynllun Digolledu'r Lluoedd Arfog, y Cynllun Pensiwn Rhyfel a Chynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog.

Mae'r Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr yn rhoi cymorth ar faterion ariannol hefyd, yn cynnwys rheoli sefyllfa ariannol, tai a chyflogaeth.

Gallwch gael gafeael ar y Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr drwy gysylltu â **Veterans-uk@mod.uk** neu ffonio **0808 1914218**.

## Y Porth i Gyn-filwyr

Y Porth yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyn-filwyr sydd angen cymorth.

Bydd y Porth i Gyn-filwyr yn eich rhoi chi a'ch teulu mewn cysylltiad â sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i'ch helpu gyda'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnoch – o ofal iechyd a thai i gyflogadwyedd, cyllid, perthnasoedd personol a mwy.

I wybod mwy am y cymorth sydd ar gael gan y Porth, ffoniwch: 0808 802 1212 neu ewch i: **[www.veteransgateway.org.uk/hafan/](http://www.veteransgateway.org.uk/hafan/)**

# Llywodraeth Cymru

## Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol

Os ydych chi'n byw yn un o ardaloedd Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol Llywodraeth Cymru, mae ganddynt rôl sylweddol o ran sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein hymrwymiad i weithio gyda chi a'n holl grwpiau gwarchoddedig i ddileu gwahaniaethu a sicrhau cyfleoedd i bawb.

Maen nhw'n darparu gwasanaeth mentora a chymorth dwys i ennyn eich diddordeb fel cyfranogwyr ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n wynebu'r rheini sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

### Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy

Mae'r rhaglenni Cymunedau am Waith yn cael eu cyd-ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), tra fod Cymunedau am Waith a Mwy yn gwasanaeth ychwanegol a arianwyd gan Llywodraeth Cymru. Er mwyn dysgu mwy, cysylltwch â: [C4W@wales.gsi.gov.uk](mailto:C4W@wales.gsi.gov.uk).

### ASTUDIAETH ACHOS:

Roedd Brian wedi bod yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ers 2014. Ar ôl treulio 8 mlynedd yn y Lluoedd Arfog, roedd wedi trechu problem yfed ar ôl dychwelyd adref. Bu yn y grŵp cymorth ac yna cafodd ei ddatgan yn ffit i weithio felly dechreuodd hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn Hydref 2017.

Mae Brian yn byw gyda'i wraig, sydd ddim yn gweithio, a 2 blentyn dibynnol mewn llety rhent preifat.

Roedd wedi gweithio gyda CAIS yn y gorffennol ac wedi ennill tystysgrif Mentora Cymheiriaid. Sylweddolodd ei fod eisiau gweithio gydag oedolion/pobl ifanc agored i niwed, yn y gobaith o ddefnyddio'i brofiad i ddangos empathi tuag atynt a'u helpu.

Cyfarfu Llywodraeth Cymru â Brian ym mis Tachwedd 2017, a buom yn trafod y math o waith oedd o ddiddordeb iddo a'r oriau y byddai'n gallu gweithio. Roedd swydd yn cael ei hysbysebu yn y porthladd ar gyfer Rheoli Ffiniau, ond doedd Brian ddim yn ffyddiog fod ganddo'r sgiliau priodol. Cynghorwyd



Brian i gwblhau cyrsiau galwedigaethol i gael y cymwysterau diweddaraf, a bu hefyd yn gweithio ar fagu hunanhyder.

Cwblhaodd Brian gwrs Asesu Risg yn llwyddiannus, a threfnwyd lle iddo ar Gyrsiau Codi a Chario ac lechyd a Diogelwch.

Gwnaeth Brian gais llwyddiannus am swydd fel gyrrwr dosbarthu gydag Ymchwil Canser.

## Twf Swyddi Cymru

Mae Twf Swyddi Cymru ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith. Mae'n rhoi profiad gwaith gwerthfawr iddynt am gyfnod o 6 mis, gyda thâl sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu fwy, rhwng 25 a 40 awr yr wythnos. Byddwch yn cael cyfle i gael y profiad gwaith rydych chi'n brin ohono. Os oes gennych chi anabledd neu os ydych chi'n wynebu rhwystrau eraill, gallwch gael cymorth a mentora ychwanegol yn ystod y profiad gwaith.

Mae Twf Swyddi Cymru'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith addas a bydd gweithgareddau Twf Swyddi Cymru yn parhau hyd nes y bydd y rhaglen gyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio, ar waith yn Ebrill 2019.

## Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd

Nod y rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd yw cynorthwyo oedolion di-waith i gael gwaith a chadw swydd drwy wella eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith o ansawdd uchel neu hyfforddiant penodol i gyflogwyr ac yn ei gyfuno â hyfforddiant paratoi at waith, a darpariaeth sgiliau hanfodol os oes angen. Mae'r rhaglen ar gyfer oedolion di-waith sydd â siawns go lew o fod yn barod am waith o fewn chwe mis.

## Ymgeisio am Swydd Wag



**1** Ewch i'r Tudalen Chwilio a dewiswch 'Twf Swyddi Cymru' swyddi gwag i chwilio am swyddi sydd o ddiddordeb i chi. Gwnewch yn siŵr rydych chi'n cofrestru ar ein gwefan.



**2** Cadwch olwg ar eich ceisiadau yn fy **Swyddi Gwag**.



**3** Cysylltwch â Gyrfa Cymru os hoffech chi helpu i:

- » Darganfod pa sgiliau a galluoedd mae gennych chi, a sut y gallant helpu cael y swydd rydych chi ei eisiau.
- » Gwneud cais am Twf Swyddi Cymru swyddi.
- » Darganfyddwch am gymhwyster gofynion a thystiolaeth fydddech angen darparu.

## Cymru'n Gweithio

Bydd Cymru'n Gweithio'n dechrau gweithredu ym mis Ebrill 2019. Bydd y rhaglen yn cyfuno arlwy cyfredol Llywodraeth Cymru o gymorth cyflogadwyedd i gyflwyno dull cydgysylltiedig newydd o gymorth cyflogadwyedd a sgiliau, sydd wedi'i lunio i ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y rhaglen yn cynorthwyo pobl o bob oed i oresgyn unrhyw rwystrau sydd ganddynt, er mwyn cael a chadw swyddi cynaliadwy o ansawdd.

Ym mis Chwefror 2019 bydd Llywodraeth Cymru'n lansio'r Porth Cyngor Cyflogaeth, sef man cychwyn i gael atgyfeiriad i'r rhaglen Cymru'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

Ar sail amgylchiadau a dyheadau personol unigolion, bydd cynghorwyr hyfforddedig yn nodi'r cymorth mwyaf addas ar gyfer yr unigolyn. Gyda chydysyniad yr unigolyn, bydd cynghorwyr yn cyfeirio unigolion at y cymorth mwyaf priodol – Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith, neu ymyriadau eraill.



# Gwasanaeth Dechrau Busnes

Gall dechrau busnes roi llawer o foddhad a chyffro, ond mae'n gallu bod yn broses llawn risg a her hefyd.

Os ydych chi eisiau dechrau busnes newydd, mae cannoedd o daflenni ffeithiau ar gael i'ch helpu i ddewis y math iawn o fusnes. Edrychwch ar ein dewis o daflenni ffeithiau sy'n rhoi sylw i bob dim o Aciwbgydd i Wneuthurwr Wigiau.


Ffoniwch **0300 060 3000** neu ewch i:  
[www.businesswales.gov.wales/starting-up/cy](http://www.businesswales.gov.wales/starting-up/cy)

## WYDDOCH CHI?

Mae Busnes Cymru yn cynnig gwasanaeth Mentora am ddim. I fod yn gymwys i gael y gwasanaeth mentora, rhaid i'ch busnes newydd neu gyfredol fod wedi'i leoli yng Nghymru.

## Sut byddwch chi'n cael budd

Mae mentora llwyddiannus yn dibynnu ar eich ymroddiad i'r berthynas fentora. Dyma rai o'r manteision i chi:



Ffoniwch y llinell gymorth ar **0300 060 3000** neu defnyddiwch y cyfleuster sgwrs fyw i gael rhagor o daflenni ffeithiau a chynghor ar Fentora Busnes.





# Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru'n rhoi cyngor a chymorth i'r rheini sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain. Gallwch gysylltu â nhw ar: [www.careerswales.com/cy/swyddi-a-hyfforddiant/gweithio-i-chi-ch-hun/sefydlu-eich-busnes-eich-hun/](http://www.careerswales.com/cy/swyddi-a-hyfforddiant/gweithio-i-chi-ch-hun/sefydlu-eich-busnes-eich-hun/)

Gallwch gael gwybodaeth bellach am ddechrau'ch busnes eich hun o'r dewisiadau isod hefyd:

- » Mae Startups yn cynnig amrywiaeth o adnoddau fel blogs, astudiaethau achos, fforymau a phodlediadau i ysbrydoli darpar entrepreneuriaid.
- » Mae Cobweb Information for Business yn cyhoeddi gwybodaeth ymarferol am ddim sy'n helpu entrepreneuriaid i sefydlu a rhedeg eu busnesau bach.
- » Mae'r Prince's Trust yn rhoi grantiau yn ogystal â chymorth a chyngor i gyw entrepreneuriaid 18-30 oed. Felly hefyd Shell LiveWIRE.
- » Mae Enterprise4all yn arbenigo mewn cefnogi entrepreneuriaid o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, fel menywod, pobl ag anableddau, pobl hŷn a'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- » Mae'r Rhwydwaith Disabled Entrepreneurs yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio a gwasanaethau gwybodaeth i bobl anabl hunangyflogedig.

» Mae Prime Cymru yn fenter ar gyfer pobl dros 50 oed sy'n dechrau eu busnes eu hunain.


» Gallwch gael hyfforddiant busnes a chyngor ar ddechrau busnes, am ddim, gan gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae opsiynau eraill i helpu i ariannu eich busnes ar gael gan:

Y Prince's Trust, Shell LiveWIRE, Startups a Busnes Cymru. Hefyd adran hunangyflogaeth gwefan Prospects.



## RFEA – Elusen Cyflogaeth y Lluoedd




Mae'r RFEA yn darparu cymorth, swyddi a chyfleoedd hyfforddi sy'n newid bywydau i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chynfilwyr gydol eu hoes, waeth beth fo'u hamgylchiadau, rheng, hyd gwasanaeth, neu reswm dros adael.

Mae Cynghorwyr Cyflogaeth RFEA yn gweithio'n agos gyda Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog y Ganolfan Byd Gwaith a darparwyr gwasanaethau ac elusennau eraill.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chofrestru yn: [www.rfea.org.uk/jobseekers](http://www.rfea.org.uk/jobseekers)

## Gwasanaethau Cyflogaeth gan Gymdeithas y Swyddogion (OA)



Mae Adran Cyflogaeth yr OA yn helpu cyn swyddogion i gael swyddi cynaliadwy fel sifiliaid. Mae'n cynnig cyngor wedi'i deilwra a gwasanaethau wedi'u dargedu i'r rheini sydd eisiau camu i'r farchnad swyddi ar lefel swyddog gweithredol, gyda mwy o bwyslais ar rwydweithio a brandio personol effeithiol.

I wybod mwy am y digwyddiadau a'r cymorth a drefnir gan Gymdeithas y Swyddogion ar gyfer cyn-swyddogion, ewch i:

[www.officerassociation.org.uk/  
employment](http://www.officerassociation.org.uk/employment)

# Elusennau Milwrol

## Lleng Brydeinig Frenhinol

CivvyStreet yw adnodd ar-lein y Lleng Brydeinig Frenhinol sy'n cynnwys gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ymarferol i'r rheini sydd ar fin gadael y Lluoedd neu sydd newydd adael. Mae CivvyStreet ar gael i unrhyw un sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU (fel milwyr parhaol neu wrth gefn) a'u gweddwon, partneriaid a dibynyddion.

### Mae'r cymorth yn cynnwys:

- » Bwrdd swyddi gyda swyddi ar gyfer y rheini sy'n gadael y Lluoedd gyda chyflogwyr sydd eisiau recriwtio cyn-aelodau'r Lluoedd.
- » Mynediad at gyrsiau i adeiladu sgiliau a chymwysterau gyda chyngor ar opsiynau dysgu a ffrydiau ariannu.
- » Cymorth ar-lein gyda CV a chyngor ymarferol ac unigol ar ddod o hyd i waith.
- » Dolenni i ragor o gyngor a chymorth, yn cynnwys apwyntiadau gyda chynghorwyr gyrfaoedd.

I wybod mwy a chofrestru ar gyfer CivvyStreet ewch i: [www.civvystreet.org](http://www.civvystreet.org)

## The Poppy Factory

Mae gwasanaeth cyflogadwyedd Lleoliadau a Chymorth Unigol (IPS) seiliedig ar dystiolaeth y Poppy Factory yn rhoi cymorth sy'n canolbwyntio ar y cleient i Gyn-filwyr yng Nghymru a Lloegr, sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio dod o hyd i swydd gynaliadwy o ganlyniad i gyflwr iechyd neu anabledd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gymorth cyflogaeth y Poppy Factory yn:

[www.poppymfactory.org](http://www.poppymfactory.org)

## Y Rhaglen Lifeworks

Cwrs 5 diwrnod sy'n cael ei ariannu'n llawn yw Lifeworks. Mae'n rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar Gyn-bersonél y Lluoedd i gael a chadw swydd sifil sy'n briodol iddynt. Mae'n canolbwyntio ar hyfforddiant a chymorth ac mae'n cael ei deilwra i weddu i'ch anghenion unigol chi.

Mae mwy o wybodaeth am y Rhaglen Lifeworks yn:

[www.rbli.co.uk/employment\\_solutions/lifeworks](http://www.rbli.co.uk/employment_solutions/lifeworks)

## Help for Heroes

Mae Help for Heroes yn cynnig yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i fod yn barod i gael swydd a chymryd eich camau nesaf.

Nid dod o hyd i swydd newydd i chi yw nod adfer gyrfa – yn hytrach, mae'n eich

paratoi ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Mae Gwasanaeth Adfer Help for Heroes yn cynnig mynediad at gyrsiau, cymwysterau, profiad gwaith, rhwydweithio, hyfforddiant a gwirfoddoli i'ch helpu i addasu i fywyd y tu allan i'r Lluoedd.

Mae sefydlu busnes yn gallu bod yn her – dylai Profiad Busnes Help for Heroes eich helpu i benderfynu ai hunangyflogaeth yw'r llwybr iawn i chi.

Mae'r cwrs yn rhaglen 6 diwrnod dros 2 fis sy'n ei chynnal mewn partneriaeth ag X Forces. Mae'n cwmpasu pob agwedd ar sefydlu a chynnal busnes proffidiol. Mae Profiad Busnes yn cynnig cymorth parhaus wrth i chi fentro i'ch bywyd newydd fel unigolyn hunangyflogedig a mynediad at gyllid grant.

## Building Heroes

Mae Building Heroes yn cynnig hyfforddiant sgiliau i Gyn-filwyr a chymorth i gael gwaith yn y diwydiant adeiladu. Mae'n darparu Cwrs Cynnal a Chadw Eiddo Sylfaenol, cwrs preswyl 5 wythnos o hyd o fewn rhaglen amlddisgyblaeth.

Mae'r cwrs yn agored i unrhyw gyn-aelod o'r Lluoedd sydd eisiau dechrau gyrfa yn y diwydiant adeiladu ac mae 80 o unigolion yn manteisio ar ei gymorth bob blwyddyn.

I ddysgu mwy ewch i:  
[www.buildingheroes.org.uk](http://www.buildingheroes.org.uk)

# Cymorth i ddatblygu'ch sgiliau a chael mynediad at Addysg Bellach ac Uwch

## Cydnabod dysgu blaenorol

Mae Cynllun Credydau Dysgu'r Lluoedd Arfog yn helpu i gefnogi datblygiad personol. Mae Credydau Dysgu Safonol (SLC) yn ariannu dysgu ar raddfa fach ac mae Credydau Dysgu Uwch (ELC) yn cynnig cymorth tuag at gost ennill cymwysterau addysg bellach neu addysg uwch.

Yn ystod eich cyfnod yn gwasanaethu yn y Lluoedd mae'n bosib eich bod wedi cofrestru ar gyfer a defnyddio ELC. Gallwch barhau i'w hawlio am hyd at 5 mlynedd ar ôl eich dyddiad gadael. Gall Cyn-aelodau'r Lluoedd a ymunodd cyn 1 Ebrill 2011 ac sy'n gymwys hawlio am hyd at 10 mlynedd ar ôl gadael y Lluoedd. I wybod mwy am sut i ddefnyddio'ch ELC cysylltwch â

[www.enhancedlearningcredits.com](http://www.enhancedlearningcredits.com)

Mae Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd yn enghraifft o ddarparwr Addysg Uwch a fydd yn eich cynorthwyo i bennu nifer y credydau Addysg Uwch rydych chi wedi'u casglu a'ch helpu i benderfynu ar opsiynau ar gyfer eich gyrfa newydd.

[www.southwales.ac.uk/study/armed-forces/](http://www.southwales.ac.uk/study/armed-forces/)

## ASTUDIAETH ACHOS

Cefais amser gwych ym Mhrifysgol De Cymru. Byddwn yn argymhell y sefydliad hwn i unrhyw un sy'n gadael y Lluoedd ac sydd eisiau mynd ar drywydd addysg bellach. Mae'n amlwg o Gynllun Cydnabod Dysgu Blaenorol y Brifysgol bod gwasanaeth yn y Lluoedd yn cael ei werthfawrogi.

Fe wnaeth y tîm Anabledd a Dyslecsia ddelio â'm hanabledd clywed drwy roi cymorth parhaus i fi yn ystod yr adegau anodd. Diolch i dîm ELCAS y Fyddin am y cyfle i gamu i'r farchnad swyddi gyda'r radd hon.

Un o Raddedigion 2017, Rheoli Risg, Gweithrediadau Diogelwch ac Ymchwiliadau.

## Addysg Uwch/Addysg Bellach

Yn ogystal â chymorth gyda ffioedd dysgu drwy'r cynllun ELC, mae cymorth ariannol ar wahân ar gael gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau byw ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau astudio am eu cymhwyster Addysg Uwch cyntaf. Mae'r cymorth yn dibynnu ar incwm eich aelwyd, a ble rydych chi'n penderfynu astudio. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn: [www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk)

Dyma enghreifftiau eraill o raglenni i'ch cynorthwyo.

## Troops to Teachers

Mae Troops to Teachers yn rhaglen genedlaethol uchel ei pharch dan ofal y CTP a darparwyr Addysg Uwch sy'n targedu'r rheini sy'n gadael y Lluoedd sydd â'r potensial i fod yn athrawon heb eu hail.

Mae'r rhaglen yn unswydd ar gyfer cyn-aelodau'r Lluoedd sydd heb radd ac sy'n gymwys i gael cymorth i adsefydlu. Gan amlaf bydd hyn yn golygu eich bod chi wedi gwasanaethu am bedair blynedd o leiaf a'ch bod o fewn pum mlynedd i'ch dyddiad gadael ar ddechrau'r rhaglen.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â: **troopstoteachers@brighton.ac.uk** neu ffonio **01273 643598**.

## ASTUDIAETH ACHOS

Treuliodd hyfforddai Troops to Teachers Mike Parry bedair blynedd yn y Fyddin ac roedd yn Gorporal cyn ymuno â'r Rhaglen:

“Pan wnes i adael y Fyddin, fe wnes i benderfynu fy mod i eisiau gyrfa gadarn a gwneud rhywbeth ro'n i'n ei fwynhau – ro'n i'n arfer addysgu grwpiau yn y Fyddin ac yn mwynhau gwneud hynny – felly roedd y rhaglen fel petai'n gam naturiol ymlaen. Mae'r cwrs wedi gwneud synnwyr o'r ddwy flynedd dreuliais i yn y Brifysgol ac, a bod yn onest, dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i'n awr heb y cwrs Troops to Teachers. Mae'r cyfan wedi gweithio'n berffaith i mi.

“Mae'r elfen Brifysgol yn wych ac yn sicrhau bod gen i'r wybodaeth ddiweddaraf – mae'n ffordd hamddenol o weithio a ffordd wych o astudio. Wrth adael y Lluoedd mae digon o swyddi ar gael i chi ond ychydig iawn o yrfaoedd. Dyna oeddwn i ei eisiau: rhywbeth â dyfodol hirdymor, a rhywbeth ro'n i'n ei fwynhau.”

Pan ofynnwyd iddo sut roedd e'n teimlo am dreulio pedair blynedd yn y Fyddin ac yna mynd yn ôl i astudio, wnaeth Mike ddim oedi cyn dweud: “Dwi wrth fy modd.”

## Prentisiaethau a Lleoliadau Gwaith

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn ffordd o ennill cyflog a gweithio ochr yn ochr â staff profiadol i gael sgiliau swydd benodol. Gyda hyfforddiant ychwanegol gan ddarparwr hyfforddiant partner, byddwch yn gweithio tuag at gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Os ydych chi dros 16 oed, yn byw yng Nghymru ac nad ydych chi mewn addysg llawn amser, gallwch wneud cais. Bydd prentisiaeth yn rhoi sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau proffesiynol swydd benodol i chi. Byddwch yn gweithio tuag at gymhwyster seiliedig ar waith ar Lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru o leiaf.

Byddwch yn gwneud swydd go iawn i gyflogwr go iawn a bydd gennych chi dargedau i'w cyrraedd. Bydd eich cynnydd yn cael ei wirio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod eich cyflogwr yn eich cynorthwyo a'ch bod yn gwneud cynnydd.

Byddwch yn cael cyflog rheolaidd gyda gwyliau â thâl a'r un buddion â gweithwyr cyflogedig eraill. Wrth i'ch sgiliau ddatblygu, bydd eich cyflog yn cynyddu hefyd. Gallwch gael arian ychwanegol i brynu llyfrau, dillad neu offer hanfodol neu help gyda'ch anabledd. I wybod mwy:

**[www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?lang=cy](http://www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?lang=cy)**



## Mentora

Mae rhaglen fentora ar-lein y Lleng Brydeinig Frenhinol yn cynnig ffordd newydd a hawdd i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chyn-filwyr i gysylltu â mentoriaid yn y sectorau eiddo, adeiladu, trafndiaeth a logisteg i gael cymorth i gynllunio gyrfa a rhwydweithio, ble bynnag maen nhw.

I wybod mwy ewch i:  
**[mentoring@britishlegion.org.uk](mailto:mentoring@britishlegion.org.uk)**

## SSAFA

Yn Ionawr 2018 lansiodd SSAFA ei wasanaeth mentora peilot i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael y Lluoedd i ymaddasu i fywyd sifil. Bydd y peilot dwy flynedd yn cael ei gynnal yng ngarsiwn Catriaeth a bydd yn ategu'r cymorth sydd eisoes yn cael ei roi i bersonél sy'n paratoi i adael y Lluoedd. Os ydych chi'n gadael y Lluoedd ac wedi'ch lleoli yng Nghatraeth, gallwch wneud cais am fentor drwy raglen Cynghorydd Cyflogaeth Partneriaeth Pontio Gyrfa yr elusen. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn: **[www.ssafa.org.uk/help-you/currently-serving/mentoring/transitional-mentoring-catterick](http://www.ssafa.org.uk/help-you/currently-serving/mentoring/transitional-mentoring-catterick)**

## Cyfle Cymru

Gan weithio mewn partneriaeth â CAIS, mae gan Cyfle Cymru fentoriaid cymheiriaid sy'n gallu eich helpu i fagu hyder, a'ch helpu i gael gafael ar hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad gwaith.

Maen nhw'n helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i gael y sgiliau sydd eu hangen i gamu i'r byd gwaith.

E-bostiwrch: **[ask@cyflecymru.com](mailto:ask@cyflecymru.com)** i ddysgu mwy am y cymorth sydd ar gael.

## Gair i gloi...

Mae'r Llwybr at Waith hwn wedi'i ddatblygu i'ch helpu a'ch cyfeirio i gael swydd sy'n iawn i chi. Mae'n rhoi manylion sefydliadau a rhaglenni i'ch helpu i ymaddasu i fywyd sifil ar ôl gadael y Lluoedd Arfog ac sy'n addas i'r rheini ohonoch sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith.

Er mwyn ategu'r Llwybr hwn, mae Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth i Gyflogwyr a fydd yn tynnu sylw at y sgiliau a'r ymddygiadau unigryw sydd gan y rhai sy'n gadael y Lluoedd a Chyn-filwyr, ac y gallant eu cynnig i gyflogwyr, ynghyd ag amrywiaeth o adnoddau i gyflogwyr i'w helpu i ddefnyddio'r gymuned Lluoedd Arfog i lenwi eu bylchau sgiliau.

I weld y Pecyn Cymorth i Gyflogwyr, ewch i **[llyw.cymru/cefnogylluoeddarfog](http://llyw.cymru/cefnogylluoeddarfog)**